CYNGOR BRO MORGANNWG
(GORCHYMYN GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO)
(GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) (RHIF 5) 2019

1. Ar 16 Mawrth 2021 gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffordd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, Orchymyn i osod a diddymu'r cyfyngiadau parcio a nodir yn yr atodlenni isod.
2. Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar 22 Mawrth 2021 neu ar y dyddiadau y mae'r arwyddion a'r marciau ffordd yn cael eu gosod neu eu tynnu, p'un bynnag sydd hwyraf ac fe'i gelwir yn "Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) (Diwygiad) (Rhif 5) 2019"
3. Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a chynlluniau yn dangos yr ardal yr effeithir arni ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk
4. Os ydych am herio dilysrwydd y Gorchymyn neu'r darpariaethau ynddo ar y sail nad ydynt yn unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail nas cydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos i 22 Mawrth 2021, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

Caiff y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig canlynol ei ddiwygio fel a ganlyn:

Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) 2013

ATODLEN 1

Insert into map schedules AX50 AY50
Cynnig Gwahardd Aros/Llwytho/Dadlwytho ar Unrhyw Adeg
Hood Road, Y Barri (Adran Goodsheds)

Ar ochr y gorllewin o'r gyffordd â Ffordd y Mileniwm am 160 metr tua'r gogledd ac yna yn gyffredinol tua'r de-orllewin.
Ar ochr y de-ddwyrain, o bwynt 165 metr o'r gyffordd â Ffordd y Mileniwm am 25.5 metr tua'r de-orllewin.
Ar ochr y de-ddwyrain, o bwynt 235 metr o'r gyffordd â Ffordd y Mileniwm am 64 metr tua'r de-orllewin.
Ar ochr y de-ddwyrain, o bwynt 311 metr o'r gyffordd â Ffordd y Mileniwm am 51.5 metr tua'r de-orllewin.
Ar ochr y gogledd-orllewin o flaen ochr ddeheuol y ganolfan iechyd ac yn unol â'r cyfyngiadau presennol o bwynt sydd 26.5 metr tua'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd ag Island Road am ryw 23.5 metr tua'r gogledd-ddwyrain.
Ar ochr y gogledd-orllewin o flaen ochr ddeheuol y ganolfan iechyd ac o bwynt sydd 80 metr tua'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd ag Island Road am 118 metr i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain yn gyffredinol.
Ar ochr y gogledd-orllewin o flaen ochr ddeheuol y Pumphouse ac o bwynt sydd 204 metr tua'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd ag Island Road am 49 metr i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain yn gyffredinol.
Ar ochr y gorllewin, o ochr ddwyreiniol y Pumphouse, o bwynt 86 metr o'r gyffordd â Ffordd y Mileniwm am ryw 10 metr tua'r gogledd.
Ar ochr y gorllewin, o flaen ochr ddwyreiniol y Pumphouse, o bwynt 152.5 metr o'r gyffordd â Ffordd y Mileniwm am ryw 25 metr tua'r gogledd a'r gorllewin i'r gyffordd â maes parcio'r Pumphouse.
Ar ochr y dwyrain o'r gyffordd â Ffordd y Mileniwm am ryw 170.5 metr i gyfeiriad y gogledd yn gyffredinol i'r gyffordd â maes parcio gwesty'r Premier Inn.

Hood Road, Y Barri (Rhan Ogleddol)

O ochr y gogledd-ddwyrain o bwynt sydd gyferbyn â chyffordd ogleddol y Pumphouse am ryw 42 metr tua'r de-ddwyrain i'r gyffordd â maes parcio gwesty'r Premier Inn.

ATODLEN 2

Insert into map schedules AX50 AY50

Aros Cyfyngedig Arfaethedig o ddydd Llun i ddydd Sadwrn 8am tan 6pm, dim dychwelyd o fewn dwy awr.

Hood Road, Y Barri

Ar ochr y gogledd-orllewin o bwynt 50 metr tua'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd ag Island Road am ryw 30 metr tua'r gogledd-ddwyrain.

Ar ochr y de-ddwyrain o bwynt 205 metr o'r gyffordd â Ffordd y Mileniwm am ryw 30 metr tua'r de-orllewin.

Ar ochr y gorllewin, o flaen ochr ddwyreiniol y Pumphouse, o bwynt 96 metr o'r gyffordd â Ffordd y Mileniwm am ryw 56.5 metr tua'r gogledd-ddwyrain.

Dyddiedig 18 Mawrth 2021.

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai

Cyngor Bro Morgannwg, Depo'r Alpau, Gwenfô CF5 6AA